## 4 DADANSODDI ACHOSION

***PA FFACTORAU SY'N RHAID YMDRIN Â HWY ER MWYN PONTIO'R BWLCH A CHYFLAWNI AMCANION Y PROJECT?***

Bydd dadansoddiad achosion yn nodi pam fod y bwlch o ran perfformiad yn bodoli.

| | **Enghreifftiau o faterion sydd angen sylw.** | |
|---|---|---|
| **PERFFORMIAD**<br>• Adnoddau ariannol<br>• Disgwyliadau a chymhelliant<br>• Adborth<br>• Aliniad strategol<br>• Cyd-destun perfformio | **Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ffactorau y tu allan i'r project a fydd yn effeithio ar y project.**<br>• Pa strategaethau a pholisïau sy'n dylanwadu ar y pwnc hwn?<br>• Ble mae'r cyfrifoldeb/awdurdod o fewn y sefydliad?<br>• Pa adborth mae'r staff wedi ei gael ynglŷn â hyn?<br>• Pa mor rhesymol yw disgwyliadau'r budd-ddeiliaid?<br>• Beth yw'r gost i'r sefydliad? | |
| **POBL**<br>• Sgiliau a gwybodaeth<br>• Capasiti<br>• Gallu<br>• Gofynion amser | • A oes gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol?<br>• Beth yw'r bylchau penodol mewn sgiliau a gwybodaeth?<br>• Beth yw'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yng nghyd-destun y project hwn ac a oes unrhyw fylchau?<br>• A oes gan staff yr adnoddau angenrheidiol i wneud y gwaith?<br>• A oes unrhyw broblemau capasiti - o ran ymdrin â galwadau eraill yn y gwaith?<br>• A fydd y staff yn cyflawni'r ddyletswydd yn rheolaidd neu o bryd i'w gilydd?<br>• A gymerwyd amser i rwystro'r broblem rhag effeithio ar ddyletswyddau eraill?<br>• A oes problemau tîm fydd yn rhwystro cynnydd y project?<br>• A fydd y lefelau presennol o gymhelliant ac ymddygiad yn cefnogi'r newid?<br>• A oes problemau unigol fydd yn rhwystro cynnydd y project? | |
| **PROSESAU**<br>• Prosesau TG<br>• Systemau a phrosesau adrannol<br>• Systemau a phrosesau'r brifysgol<br>• Ergonomeg | • Beth yw'r tagfeydd?<br>• Pa mor effeithlon yw'r adnoddau cefnogi?<br>• A yw'r gweithdrefnau a'r prosesau wedi eu diffinio'n dda?<br>• Pa mor effeithlon yw'r adnoddau cefnogi?<br>• Pryd mae gwybodaeth yn anodd ei chael/ei chael mewn pryd? | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Pa seilwaith sefydliadol sy'n cefnogi'r gweithgaredd hwn?<br>• A yw'r elfennau o seilwaith TG wedi eu hintegreiddio'n dda? | |